# TELERAU AC AMODAU BUSNES

**MYNEGAI**

**Pennawd**


1. Gofal Cwsmer
2. Gwybodaeth am Gostau
3. Ffioedd a Threuliau
4. Cyfansymiau ac Uchafsymiau Costau
5. Biliau interim a thalu ein costau
6. Talu fesul tipyn
7. Sut i gadw eich Costau i Lawr

8 Ffioedd a threuliau partïon eraill

9. Terfynu Cyfarwyddiadau
10. Cwynion
11. Storio ac Adalw Dogfennau
12. Gwaith a wneir ar Gontract Allanol
13. Archwilio Ffeiliau
14. Telerau ac Amodau Busnes
15. Deddf Enillion Troseddau a Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007
16. Deddf Diogelu Data
17. Rheoliadau Darparu Gwasanaeth 2009
18. Gwasanaethau Ariannol


**EIN NOD**




Crëwyd Mehefin 2011

Diwygiwyd Rhagfyr 2011, v2 - Hydref 2012 v3, Medi 2014 v4, Awst 2017, v5 Gorffennaf 2021 v6 Mawrth 2023

vAwst 2023

Rydym yn anelu at gynnig cyngor cyfreithiol o safon i'n cleientiaid gyda gwasanaeth personol am gost deg. Yn y datganiad hwn rydym wedi nodi ar ba sail y byddwn yn darparu ein gwasanaeth proffesiynol, a hyderwn y bydd hyn o fudd ichi.

**EIN HYMRWYMIAD I CHI**

1) **GOFAL CWSMER**

Byddwn yn:

- Cynrychioli eich diddordebau a chadw eich busnes yn gyfrinachol. Fe wnawn ein gorau i geisio osgoi defnyddio iaith gyfreithiol dechnegol wrth ysgrifennu atoch chi a byddwn yn trafod eich ymholiadau yn brydlon, er enghraifft byddwn bob amser yn ceisio dychwelyd eich galwadau ffôn ar yr un diwrnod.
- Adnabod eich amcanion yn eglur, gan ddarparu eglurhad clir ichi o'r materion dan sylw, yr opsiynau sydd ar gael i chi a chytuno ar lefel briodol o wasanaeth gan egluro ichi y gwaith cyfreithiol y gallai fod ei angen i gyflawni'r amcanion hyn, a'r rhagolygon o ran sicrhau canlyniad llwyddiannus.
- Byddwn yn amlinellu ein cyfrifoldebau ni, eich cyfrifoldebau chi, a sicrhau eich bod yn derbyn, ar ffurf ysgrifenedig, enw a statws y person a fydd yn delio â'r mater, ac enwau'r personau a fydd yn gyfrifol am oruchwylio cyffredinol, ynghyd â manylion pwy yn ein swyddfa fydd â mynediad i'ch ffeil, ac a fydd ar gael i ateb cwestiynau cyffredinol pan nad yw'r person sy'n trafod yr achos yn y swyddfa. Byddwn yn darparu manylion ynghylch y ffordd orau o gysylltu â'r person sydd yn delio â'ch mater.
- Cytuno gyda chi beth yw'r camau nesaf i'w cymryd a, ble mae hynny'n bosib, y terfynau amser ar gyfer cwblhau'r camau nesaf hyn.
- Eich hysbysu ynghylch hynt eich achos, oni bai y cytunir yn wahanol (gweler "Sut i Gadw eich Costau i Lawr"). Wrth dderbyn cyfarwyddiadau i weithredu ar ran cwmni cyfyngedig, mae'n bosib y bydd angen i Gyfarwyddwr a/neu gyfranddaliwr â rheolaeth arwyddo ffurflen gwarant bersonol mewn perthynas â ffioedd a threuliau'r cwmni. Os yw cais o'r fath yn cael ei wrthod, bydd gennym hawl i roi'r gorau i weithredu ac i fynnu bod ffioedd yn cael eu talu ar unwaith, yn ôl yr awr, a'n treuliau fel y nodwyd uchod.
- Os byddwn yn derbyn cyfarwyddiadau gan berson arall heblaw amdanoch chi fel y cleient, neu gan ddim ond un cleient ar ran eraill mewn mater ar y cyd, ni wnawn ni fynd rhagddo cyn gwirio bod pob un o'r cleientiaid yn cytuno gyda'r cyfarwyddiadau a roddwyd.
- Byddwn yn anelu at gyfathrebu â chi yn y modd a nodwyd gennych. Mae'n bosib y bydd angen inni wirio disgiau neu e-byst am feirysau. Heblaw eich bod yn tynnu eich cydsyniad yn ôl, byddwn yn cyfathrebu ag eraill pan fo hynny'n briodol drwy e-bost neu neges ffacs, ond ni allwn fod yn gyfrifol am ddiogelwch cyfathrebiadau a dogfennau a ddanfonir ar ffurf e-bost neu ffacs.

2) **GWYBODAETH AM GOSTAU**

Fe wnawn ni ddarparu unrhyw wybodaeth am y costau yn eglur ac yn ysgrifenedig:

- Ar y cychwyn cyntaf byddwn yn rhoi'r wybodaeth orau posib i chi ynglŷn â chost gyffredinol debygol mater, a pan fo hynny'n berthnasol, wrth i'r mater fynd rhagddo



Crëwyd Mehefin 2011

Diwygiwyd Rhagfyr 2011, v2 - Hydref 2012 v3, Medi 2014 v4, Awst 2017, v5 Gorffennaf 2021 v6 Mawrth 2023

vAwst 2023

- Trafod gyda chi sut byddwch yn talu, yn benodol, a ydych yn gymwys ar gyfer cyllid cyhoeddus ac a ddylech wneud cais amdano; a pha un ai a yw eich costau'n dod dan yswiriant, neu a allai rhywun fel cyflogwr neu undeb llafur dalu eich costau.
- Eich cynghori os ydych wedi eich ariannu drwy gyllid cyhoeddus ar yr amgylchiadau ble gallech fod atebol i dalu eich costau, gan egluro ichi a darparu llenyddiaeth gyfredol yr Asiantaeth Cyngor Cyfreithiol ar effeithiau'r tâl statudol, eich dyletswydd i dalu unrhyw gyfraniad penodedig neu gyfnodol a aseswyd, a chanlyniadau methu â gwneud hynny, a'ch hysbysu hyd yn oed os ydych yn llwyddiannus, bod posibilrwydd na fydd y parti arall yn cael eu gorchymyn i dalu costau, neu mae'n bosib na fyddent mewn sefyllfa i fedru talu.
- Sicrhau eich bod yn deall y radd debygol o risg ariannol y byddwch yn ei hysgwyddo, i gynnwys eich cynghori ynghylch eich atebolrwydd potensial dros gostau unrhyw barti arall, a thrafod gyda chi pa un ai a yw eich atebolrwydd dros ba un ai a fydd costau unrhyw barti arall wedi eu hyswirio dan yswiriant cyfredol neu a oes modd prynu yswiriant pwrpasol.
- Fe fyddwn yn talu llog blaendal i chi oni bai does dim llog yn ddaliadwy os yw'r swm gyfrifwyd ar y balans yn £50 neu llai ac ar ôl i'r arian gael eu dal gennym ni, fel arian clir, am saith diwrnod

## 3) FFIOEDD A THREULIAU

Mae ein ffioedd eu cyfrifo yn bennaf gan gyfeirio at yr amser a dreulir gan gyfreithwyr a staff arall mewn perthynas ag unrhyw waith a wnânt ar eich rhan. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda chi ac eraill efallai, darllen, cynnal ymchwil a gweithio ar bapurau, drafftio dogfennau, cyfathrebiadau, paratoi unrhyw gyfrifiadau manwl, a'r amser o'r Swyddfa yn teithio ac yn aros mewn gwrandawiadau llys ac eiriolaeth mewn unrhyw wrandawiadau llys pan fo hyn yn angenrheidiol, a phob peth angenrheidiol i ddilyn eich cyfarwyddiadau.

Mae'r cyfraddau cyfredol yr awr fel sydd wedi eu nodi yn y llythyr amgaeedig. Nodir holl gyfraddau heb gynnwys TAW. Bydd hynny'n cael ei godi yn ôl y gyfradd sydd yn gyfredol ar adeg cyflwyno'r anfoneb.

- Codir 1/10 o'r gyfradd yr awr ar gyfer llythyrau safonol a anfonir, ond codir tâl ar sail amser am gyfathrebiadau hirach. Fel rheol codir 1/20 o'r gyfradd yr awr am astudio llythyrau ac e-byst a dderbynnir. Codir 1/10 o'r gyfradd yr awr am alwadau teleffon (a dderbynnir ac a wneir). Nid ydym yn codi am lythyrau a galwadau teleffon cyffredinol (e.e. llythyrau yn cydnabod derbyn).
- Rhaid adolygu ein cyfraddau o dro i dro i adlewyrchu cynnydd mewn costau gorbenion a chwyddiant. Os bydd adolygiad yn cael ei wneud cyn cwblhau'r mater hwn, byddwn yn eich hysbysu trwy lythyr ynghylch unrhyw amrywiad i'r gyfradd cyn i hynny ddigwydd.
- Yn ychwanegol at yr amser a dreulir, mae'n bosib y byddwn yn ystyried sawl ffactor gan gynnwys unrhyw angen i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol, cymhlethdod y materion, y cyflymder o ran gweithredu, ac unrhyw arbenigedd penodol gan arbenigwr y gallai fod ei angen ar yr achos. Yn benodol, mewn trafodion eiddo, gweinyddu ystadau ac mewn materion o werth neu fudd ariannol sylweddol i'r cleient, mae'n bosib y byddwn yn ystyried tâl a fydd yn adlewyrchu, er enghraifft, pris yr eiddo, maint yr ystâd, neu werth y budd ariannol. Nid yw hi bob amser yn bosib

nodi sut y gallai'r agweddau hyn godi ond ar y wybodaeth bresennol byddem yn disgwyl iddynt fod wedi eu hystyried yn ddigonol yn y cyfraddau a ddyfynnwyd gennym. Pan fo tâl i'w ychwanegu sydd yn adlewyrchu unrhyw elfen gwerth, byddwn yn esbonio hyn i chi.

- Mae'n rhaid i gyfreithwyr dalu treuliau amrywiol eraill ar ran cleientiaid yn amrywio o ffioedd Cofrestrfa Tir neu Brofiant, ffioedd llys, ffioedd arbenigwr (er enghraifft arbenigwr meddygol, bargyfreithwyr) ffioedd am ddarparu copïau o ddogfennau (nodiadau meddygol, ffioedd llungopïo gan bobl eraill) ac ati. Nid oes rhwymedigaeth arnom i dalu taliadau o'r fath oni bai eich bod wedi darparu'r arian inni at y diben hwnnw. Mae TAW yn daladwy ar rai treuliau. Rydym yn cyfeirio at daliadau o'r fath fel "alldaliadau". Byddwn yn trafod yr angen i benodi arbenigwyr pan fydd yr angen yn codi yn ystod oes eich ffeil, gan gynnwys darparu gwybodaeth ichi am Dystion Arbenigol Cymeradwy Cymdeithas y Cyfreithwyr.
- Os, am ba bynnag reswm, na fydd yr achos yn mynd yn ei flaen i'w gwblhau, bydd gennym hawl i godi tâl arnoch am y gwaith a wnaed ac am dreuliau a ysgwyddwyd gennym.
- Byddwn yn darparu'r holl wybodaeth costau ichi yn glir, ac yn ysgrifenedig, ar adegau y cytunir arnynt, e.e. pob chwe mis.

**4) CYFANSYMIAU AC UCHAFSYMIAU COSTAU**

• Nid yw hi bob amser yn bosib amcangyfrif yn gywir sawl awr o waith, llythyr a galwadau teleffon fydd eu hangen i gwblhau'r mater. Byddwn yn eich hysbysu os bydd unrhyw anawsterau anarferol yn codi neu os yw unrhyw beth yn digwydd a gaiff effaith sylweddol ar gostau.
• Rydym yn gwerthfawrogi y gallech fod yn poeni am gostau a byddem yn falch o drafod y rhain gyda chi ar unrhyw adeg.
• Os ydych yn dymuno hynny, gallwch ein hysbysu'n ysgrifenedig o uchafswm ac ni wnawn ni barhau tu hwnt i hynny heb eich cytundeb. Wrth gyrraedd y terfyn hwnnw, byddwn yn adrodd ichi, er mwyn ichi wedyn fedru penderfynu a ydych am osod terfyn diwygiedig ar gostau sydd i'w hysgwyddo heb gytundeb pellach gyda chi.

**5) BILIAU INTERIM A THALU EIN COSTAU**

• Mae'n arferol gofyn i gleientiaid dalu symiau o arian ar gyfrif ar gyfer y taliadau a'r treuliau sydd i'w disgwyl yn y misoedd neu'r wythnosau i ddod. Mae hyn yn arfer cyffredin. Rydym hefyd yn gweld bod hyn o gymorth i gleientiaid wrth gyfrifo costau yn ogystal â'u hysbysu ynghylch y treuliau cyfreithiol sydd i'w hysgwyddo. Os na chaiff ceisiadau o'r fath eu bodloni gyda thaliad prydlon, efallai y bydd oedi gyda chynnydd yr achos. Mewn achos annhebygol o unrhyw fili neu gais am daliad yn cael ei anwybyddu, mae'r cwmni yn cadw'r hawl i ymatal rhag gweithredu ymhellach ar eich rhan.
• Mae taliad yn ddyledus i ni o fewn 28 diwrnod inni ddanfon y bil atoch. Bydd llog yn cael ei gyfrifo yn ôl 8% y flwyddyn ar sail ddyddiol, o 28 diwrnod o ddyddiad y bil mewn achosion lle na wneir taliad.
• Ni allwn dderbyn taliad gyda cherdyn credyd. Os hoffech setlo eich cyfrif drwy'r dull hwn, gallwch wneud hynny drwy ffonio ein Hadran Derbyn Arian (Mrs M Thomas).

**6) TALU FESUL TIPYN**

Fe wnawn nid derbyn taliad fesul tipyn a gellir cytuno ar hyn ar ddechrau'r achos. Rhaid i bob rhandaliad gael eu gwneud drwy archeb sefydlog.

**7) SUT I GADW EICH COSTAU I LAWR**

LLEWELLYN-JONES
SOLICITORS > CYFREITHWYR

Sicrhewch eich bod wedi dweud wrthym yn union beth rydych am inni ei wneud. Yn y modd yna bydd pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Rhowch yr holl ffeithiau inni sydd eu hangen arnom. Bydd cynnydd yn arafach os oes raid inni fynd ar ôl gwybodaeth neu ei roi at ei gilydd o wahanol ffynonellau. Os oes angen ichi siarad gyda'ch cyfreithiwr, dewiswch y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn. Oni bai ei fod yn fater o frys, ysgrifennwch atom yn hytrach na'n ffonio, a gofynnwn ichi wneud apwyntiad os ydych am weld rhywun. Gofynnwn ichi osgoi gwneud galwadau ac apwyntiadau diangen – cofiwch po fwyaf o amser a dreuliwn yn siarad â chi neu'n ysgrifennu llythyrau, mwyaf fydd cost yr achos. Mae ein hysgrifenyddion yn effeithlon, a gallwch adael negeseuon eglur gyda nhw. Rydym wedi arfer gweithio'n gyflym. Nid oes ots gennym weithio pan fydd busnesau eraill ar gau, ond bydd hyn yn amlwg yn cynyddu eich costau. O gynllunio ymlaen llaw, a rhoi digon o rybudd inni ymlaen llaw o'ch gofynion, fe wnewch chi arbed arian.

**8) FFIOEDD A THREULIAU PARTION ERAILL**

- Mewn rhai achosion neu drafodion mae'n bosib y bydd gan gleient hawl i ofyn i berson arall dalu eu costau. Mae' bwysig deall mewn achosion o'r fath, na fydd rhwymedigaeth ar i'r person arall dalu'r holl ffioedd a'r treuliau y byddwch wedi mynd iddynt gyda ni. Mae'n rhaid i chi dalu'r ffioedd a'r treuliau yn y lle cyntaf, a bydd unrhyw symiau y gellir eu hadfer yn dod yn gyfraniad tuag atynt. Os yw'r parti arall yn derbyn cymorth cyfreithiol mae'n annhebygol y bydd modd adennill costau.
- Os ydych yn llwyddiannus a bod y llys yn gwneud gorchymyn i barti arall dalu eich ffioedd a'ch treuliau neu gyfran o'ch ffioedd a'ch treuliau, bydd modd hawlio llog arnynt gan y parti arall o ddyddiad y gorchymyn Llys. Os ydych wedi talu ein ffioedd neu dreuliau ar ffurf rhandaliadau, fe gewch chi'r llog ar y gyfran honno, ond mae gennym hawl i weddill y llog hwnnw.
- Chi fydd hefyd yn gyfrifol am dalu ein ffioedd a'n treuliau wrth adennill unrhyw gostau y mae'r llys yn eu gorchymyn i'r parti arall eu talu i chi.
- Mae'n bosib y bydd gorchymyn yn cael ei wneud i gleient sydd yn aflwyddiannus mewn achos llys dalu ffioedd a threuliau'r parti arall.
- Gellir gwneud trefniadau i gael yswiriant ar gyfer atebolrwydd ar gyfer taliadau cyfreithiol o'r fath. Gofynnwn ichi drafod hyn os oes gennych ddiddordeb yn y posibilrwydd yma.

**9) TERFYNU CYFARWYDDIADAU**

- Gallwch derfynu eich cyfarwyddiadau inni drwy ysgrifennu atom ar unrhyw adeg, ond gallwn gadw eich holl bapurau a dogfennau tra bo arian yn dal i fod yn ddyledus inni am ffioedd a threuliau. Gallwn benderfynu roi'r gorai i weithredu ar eich ran gyda rheswm da, e.e. os nad ydych yn talu bil interim neu os daw buddiannau i'r amlwg sy'n gwrthdaro, neu dorcyfraith neu dorri rheolau ymddygiad proffesiynol y mae'n rhaid i bob cyfreithiwr gadw atynt. Pan fyddwn yn gwybod, neu pan fo gennym sail resymol dros gredu bod cyfarwyddiadau wedi eu rhoi dan orfodaeth neu ddylanwad gormodol, ni fyddem yn gweithredu ar y cyfarwyddiadau hynny hyd nes ei bod wedi ein boddhau eu bod yn cynrychioli eich dymuniad. Byddem dim ond yn gwneud hyn ar ôl cyflwyno ein rhesymau ichi, ac ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig digonol.
- Os ydym ni neu chi yn penderfynu y dylem roi'r gorau i weithredu ar eich rhan, byddwch yn talu ein costau hyd at y pwynt hwnnw. Mae'r rhain yn cael eu cyfrifo fel a nodir yn y telerau ac amodau yma.

10) **CWYNION**

Rydym yn ymroi i ddarparu gwasanaeth cyfreithiol o safon uchel i'n holl gleientiaid, felly os aiff unrhyw beth o'i le, gan gynnwys mewn perthynas â'n ffioedd, rhowch wybod inni er mwyn inni fedru datrys y mater mor gyflym ac effeithiol â phosib. Ein nod yw mynd i'r afael â phroblemau sydd yn codi drwy drafodaeth neu gyfarfodydd, a bydd hyn yn ein cynorthwyo i wella ein safonau. Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r person sydd yn gweithio ar eich achos i drafod eich pryderon. Os nad yw hi'n bosib datrys y broblem neu os ydych am codi cwyn, yna cysylltwch â ni er mwyn inni ddanfon ein gweithdrefn gwyno atoch. Mae gennym wyth wythnos i ystyried eich cwyn. Os nad ydyn wedi ei datrys o fewn yr amser yma mae'n bosib y gallwch wneud eich cwyn i'r Ombwdsmon Cyfreithiol. Cyn derbyn cwyn i'w harchwilio bydd yr Ombwdsmon Cyfreithiol yn gwirio eich bod wedi ceisio datrys eich cwyn gyda ni yn y lle cyntaf. Os ydych wedi gwneud hynny, yna rhaid ichi fynd â'ch cwyn at yr Ombwdsmon Cyfreithiol o fewn chwe mis o dderbyn ymateb terfynol i'ch cwyn, a Dim mwy na chwe mlynedd o ddyddiad y weithred/anweithred, neu Dim mwy na thair blynedd o'r amser y dylech fod wedi gwybod yn rhesymol bod achos i gwyno.

Fodd bynnag, nodwch bod y terfynnau amser yn newid o 1 Ebrill 2023. O'r 1af o Ebril 2023 bydd yr Ombwdsmon Cyfreithiol yn disgwyl i gwynion gael eu gwneud iddyn nhw o fewn blwyddyn o ddyddiad y weithred neu'r anwaith sydd yn achosi pryder neu o fewn blwyddyn i chi sylwi bod pryder. Mae'r gofyn i chi gyfeirio eich pryder i'r Ombwdsmon Cyfreithiol o fewn chwe mis o'n Ymateb Terfynnol yn aros yr run fath.

I gysylltu â'r Ombwdsmon Cyfreithiol ffoniwch 0300 555 0333

E-bost: enquiries@legalombudsman.org.uk

Legal Ombudsman,
PO Box 6806,
Wolverhampton,
WV1 9WJ

Cwynion am fil gan y cwmni:
Os yw'r cwyn yn ymwneud â bil gan y cwmni yna dylech fod yn ymwybodol bod hawl gennych o bosib i wrthwynebu/herio'r bil drwy wneud cais i'r llys am asesiad o'r bil dan Ran II o Ddeddf Cyfreithwyr 1974; ac os yw'r holl fil, neu gyfran o'r bil yn parhau i fod heb ei dalu, yna gall y cwmni hawlio llog fel sydd wedi ei nodi ar y bil a gyflwynwyd. Dylech hefyd fod yn ymwybodol na wnaiff yr Ombwdsmon Cyfreithiol ystyried cwyn am fil os ydych wedi gwneud cais i'r llys am asesiad o'r bil. Gall yr Awdurdod Rheoli Cyfreithwyr (SRA) gynorthwyo os ydych yn pryderu ynghylch ein hymddygiad. Gall hyn fod am bethau fel anonestrwydd, cymryd neu golli eich arian neu eich trin yn annheg oherwydd eich oed, anabledd neu nodwedd arall.

I gysylltu â'r SRA ffoniwch 0370 606 2555
neu mae modd ysgrifennu atynt: SRA, The Cube, 199 Wharfside, Birmingham B1 1 RN.

**11) STORIO AC ADALW PAPURAU A DOGFENNAU**

- Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae gennym hawl i gadw eich papurau a'ch dogfennau tra bo arian yn ddyledus inni ar gyfer ein ffioedd a threuliau. Byddwn yn cadw ein ffeil o'ch papurau yn unol â gofynion canllawiau/gofynion cyfredol Cymdeithas y Cyfreithwyr a'n hyswirwyr indemniad, heblaw am y papurau hynny y gwnaethoch ofyn inni eu ddychwelyd atoch. Rydym yn cadw ffeiliau ar y ddealltwriaeth y gallwn eu dinistrio o fewn y terfynau amser y cyfeirir atynt uchod. Ni wnawn ni ddinistrio dogfennau y gwnaethoch chi ofyn inni eu cadw'n ddiogel. Mae'n bosib y caiff rhai ffeiliau/data eu storio'n electronig un unol â Rheolau Cymdeithas y Cyfreithwyr/Comisiynydd Data (Diogelu Data)>.
- Os byddwn yn mynd â phapurau neu dogfennau allan o storfa mewn perthynas â chyfarwyddiadau parhaus neu newydd i weithredu ar eich rhan, ni wnawn ni godi tâl fel arfer am adalw o'r fath. Fodd bynnag, mae'n bosib y gwnawn ni godi am yr amser a dreuliwn yn cynhyrchu papurau sydd wedi eu storio y gofynnir inni eu cynhyrchu ar eich cyfer chi neu berson arall ar eich cais, neu am ddarllen, cyfathrebu neu waith arall sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'ch cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r papurau a adalwyd. Ni wnawn ni godi arnoch chi am storio o'r fath heblaw bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei roi ymlaen llaw o'r ffi sydd i'w godi o dyddiad yn y dyfodol, y gellir ei nodi yn yr hysbysiad hwnnw.

**12) GWAITH A WNEIR AR GONTRACT ALLANOL**

O bryd i'w gilydd byddwn yn gofyn i gwmnïau neu bobl eraill wneud gwaith ar ein ffeiliau (e.e. ymddwyn fel asiant, paratoi bil). Byddwn ar bob achlysur yn sicrhau cytundeb cyfrinachedd gyda'r darparwyr allanol hyn. Os nad ydych am i'ch ffeil gael ei hallanoli, rhowch wybod inni cyn gynted ag y bo modd.

**13) ARCHWILIO FFEILIAU**

Gall cwmnïau neu sefydliadau allanol gynnal archwiliadau neu wiriadau ansawdd ar ein harferion. Mae'n ofynnol i'r cwmnïau neu'r sefydliadau allanol hyn gadw cyfrinachedd mewn perthynas â'ch ffeiliau.

14) **TELERAU AC AMODAU BUSNES**

- Oni chytunir yn wahanol, ac yn amodol ar gymhwyso'r cyfraddau cyfredol fesul awr, bydd y Telerau ac Amodau Busnes hyn yn berthnasol i unrhyw gyfarwyddyd a roddir gennych yn y dyfodol i'r cwmni hwn.
- Er y bydd eich cyfarwyddiadau parhaus yn y mater hwn yn gyfystyr â derbyn y Telerau ac Amodau Busnes hyn, efallai na fydd hi'n bosib inni ddechrau gweithio ar eich rhan hyd nes bo un copi ohonynt wedi ei ddychwelyd atom i ni ei gadw yn ein ffeil.

**15) DEDDF ENILLION TROSEDDAU 2002 a RHEOLIADAU GWYNGALCHU ARIAN**

Mae darpariaethau Deddf Enillion Troseddau 2002 a'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Therfysgwyr 2019 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud hi'n ofynnol inni wneud gwiriadau gofalus yn y rhan fwyaf o achosion o ran eich hunaniaeth ac, yn unol â hynny, bydd angen inni wirio a chopïo tystiolaeth o hunaniaeth. Rhaid i hyn fod ar ddau ffurf ar gyfer pob cleient, y gellir eu cadarnhau drwy gyflwyno ac archwilio pasbort dilys a/neu drwydded yrru, bil cyfleustodau sydd dim llai na 3 mis na hŷn na 12 mis oed yn eich cysylltu chi â'ch cyfeiriad cyfredol, neu ryw fath arall o ffynhonnell gwbl annibynnol arall o dystiolaeth ddogfennol y gellir ei derbyn i'r diben hwn. Mae'n debygol iawn y byddwn am wneud copïau o'r dogfennau a gyflwynir fel tystiolaeth hunaniaeth, ac mae'n bosib hefyd y byddwn yn gofyn i'r copïau gael eu cyd-lofnodi gennych chi a'u cadw wedyn ar ein ffeil. Hyderwn yr esgusodwch unrhyw anghyfleuster a achosir gan y gofynion hyn a fydd yn ein galluogi i gydymffurfio â gofynion Deddf Enillion Troseddau 2002.

**16) DEDDF DIOGELU DATA**

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn y lle cyntaf i ddarparu gwasanaeth cyfreithiol ichi, ac at ddibenion cysylltiedig gan gynnwys diweddaru a gwella cofnodion cleientiaid; dadansoddi i'n helpu i reoli ein hymarfer; ffurflenni statudol a chydymffurfiaeth cyfreithiol a rheoliadol. Mae ein defnydd o'r wybodaeth honno yn amodol ar eich cyfarwyddiadau chi, Deddf Diogelu Data 2018 (fel y'i diwygiwyd) a'n dyletswydd o ran cyfrinachedd. Noder y gall ein gwaith ei gwneud hi'n ofynnol inni rannu gwybodaeth gyda thrydydd parti megis tystion arbenigol a chynghorwyr proffesiynol eraill. Mae gennych hawl i gael mynediad dan ddeddfwriaeth rheoli data i'r data personol sydd gennym amdanoch.

**17) RHEOLIADAU DARPARU GWASANAETH 2009 a THELERAU AC AMODAU BUSNES**

Crëwyd Mehefin 2011, Diwygiwyd Rhagfyr 2011 v2 – Hydref 2012 v3, Medi 2014, v4, Awst 2017 v5 Diweddarwyd Gorffennaf 2021 v6.

Rydym yn cydymffurfio gyda'r rheoliad uchod drwy arddangos manylion gofynnol ein Hyswiriant Indemniad Proffesiynol ym mhob un o'n swyddfeydd.

18) **GWASANAETHAU ARIANNOL**

Nid yw'r cwmni hwn yn ymgymryd ag unrhyw gyngor na gwasanaeth ariannol.

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall, ac fy mod yn derbyn, y Telerau ac Amodau Busnes hyn.

Llofnodwyd............................................................ Dyddiad...................................................

Llofnodwyd............................................................ Dyddiad.....................................................

JP:71444